

Rhif: WG41132



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llywodraeth Cymru
Dogfen Ymgynghori

YMGYNGHORI AR GYNLLUN CENEDLAETHOL AR GYFER GOFALWYR I GYMRU

Dyddiad cyhoeddi: 19 Hydref 2020
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 19 Ionawr 2021

Trosolwg

Mae'r ymgynghoriad hwn yn nodi ein cyfeiriad arfaethedig o ran cynllun cenedlaethol newydd ar gyfer gofalwyr. Rydym am i ofalwyr barhau â'u bywydau eu hunain ochr yn ochr â'u rôl ofalu waeth beth fo'u hoedran, eu hamgylchiadau neu eu cefndir.

Sut i ymateb

Gallwch ymateb i'r ymgynghoriad hwn trwy gwblhau a dychwelyd, erbyn hanner nos ar y dyddiad cau, y ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad yng nghefn y ddogfen hon. Dylid anfon yr ymateb i:

Gangen Pobl Hyn a Gofalwyr
Y Grwp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Llywodraeth Cymru
Caerdydd
CF10 3NQ

Fel arall, mae'r ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad ar gael o'n gwefan (<http://wales.gov.uk/consultations/?lang=cy>) a gellir ei dychwelyd i ni, erbyn hanner nos ar y dyddiad cau, trwy anfon e-bost i:

PoblHynaGofalwyr@llyw.cymru

Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.

Manylion Cysylltu

Gangen Pobl Hyn a Gofalwyr
Y Grwp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Llywodraeth Cymru
Caerdydd
CF10 3NQ

PoblHynaGofalwyr@llyw.cymru

Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer unrhyw ddata personol a ddarperir gennych wrth ichi ymateb i'r ymgynghoriad. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu'r data personol hyn a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau cytbwys ynghylch sut y maent yn cyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus. Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â nhw neu sy'n cynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol. Pan fo Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad pellach o'r ymatebion i ymgynghoriad, yna gall trydydd parti achrededig (e.e. sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori) gael ei gomisiynu i wneud y gwaith hwn. Ymgymerir â gwaith o'r fath dim ond o dan gcontract. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn nodi gofynion caeth ar gyfer prosesu a cadw data personol yn ddiogel.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion cyn cyhoeddi'ch ymateb.

Dylech hefyd fod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth

Os caiff eich manylion chi eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, caiff yr adroddiadau hyn eu cadw am gyfnod amhenodol. Ni fydd gweddiill eich data a gedwir fel arall gan Lywodraeth Cymru yn cael eu cadw am fwy na thair blynedd.

Eich hawliau

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl:

- i wybod am y data personol a gedwir amdanoch chi a'u gweld
- i'w gwneud yn ofynnol inni gywiro gwallau yn y data hynny
- (o dan rai amgylchiadau) i wrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu'r data
- (o dan rai amgylchiadau) i'ch data gael eu 'dileu'
- (o dan rai amgylchiadau) i gludadwyedd data
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (SCG), ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

I gael rhagor o fanylion am yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw ac am y defnydd a wneir ohoni, neu os ydych am arfer eich hawliau o dan y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol, gweler y manylion cyswllt isod:

Y Swyddog Diogelu Data:
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
CAERDYDD,
CF10 3NQ

e-bost:

Data.ProtectionOfficer@llyw.cymru

Dyma fanylion cyswllt Swyddfa'r
Comisiynydd Gwybodaeth:
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF
Ffôn: 01625 545 745 neu
0303 123 1113
Gwefan: [Gwefan Swyddfa'r
Comisiynydd Gwybodaeth](#)

YMGYNGHORI AR GYNLLUN CENEDLAETHOL AR GYFER GOFALWYR I GYMRU

1. Beth yw testun yr ymgynghoriad hwn?

1. Mae'r ymgynghoriad hwn yn nodi ein cyfeiriad arfaethedig o ran cynllun cenedlaethol newydd ar gyfer gofalwyr. Rydym am i ofalwyr barhau â'u bywydau eu hunain ochr yn ochr â'u rôl ofalu waeth beth fo'u hoedran, eu hamgylchiadau neu eu cefndir.

Diben

2. Rydym yn bwriadu defnyddio'r cynllun terfynol i nodi sut y byddwn yn gweithio gydag ystod o bartneriaid i gryfhau ein blaenoriaethau strategol presennol er mwyn adlewyrchu'n well bob agwedd ar fywyd gofalwyr.

Y cyd-destun

3. Paratowyd y ddogfen hon ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus ychydig cyn i bandemig Covid-19 a'r cyfyngiadau symud effeithio ar bob agwedd ar fywydau pobl yng Nghymru. O ganlyniad, rydym wedi diwygio'r ddogfen wreiddiol ac wedi ymgorffori adborth gan ofalwyr a'u cynrychiolwyr, academyddion a chydweithwyr ym meysydd llywodraeth leol ac ieuchyd. Mae'r ddogfen ddiwygiedig hon yn amlinellu'r cynnwys a'r cyfeiriad arfaethedig ar gyfer Cynllun Cenedlaethol newydd ar gyfer Gofalwyr. Mae hefyd yn adlewyrchu'r hyn y credwn yw'r prif faterion sydd wedi effeithio ar fywydau gofalwyr di-dâl a'r sefydliadau sy'n eu cefnogi dros y misoedd diwethaf.

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, yn diffinio gofalwr fel rhywun sy'n darparu gofal di-dâl i oedolyn neu blentyn anabl¹.

4. Gall y person sy'n derbyn gofal fod yn aelod o'r teulu neu'n ffrind na all, oherwydd salwch, anabledd, problem ieuchyd meddwl neu ddibyniaeth, ymdopi heb eu cymorth. Gallai gofalwr fod yn wŷr sy'n gofalu am ei wraig, yn rhiant sy'n gofalu am blentyn a chanddo anghenion gofal a chymorth neu'n blentyn sy'n gofalu am ei riant.
5. Yng Nghymru mae mwy na 370,000 o ofalwyr di-dâl o bob oed yn darparu gofal, sy'n werth tua £8.1 biliwn i economi Cymru bob blwyddyn². Mae 12 y cant o boblogaeth Cymru yn ofalwyr ac amcangyfrifir y gallai hyn gynyddu i hanner miliwn erbyn 2037.³ Mae'r ffigur hwn yn cynnwys unrhyw un sy'n gofalu am rywun am gyn lleied ag awr yr wythnos ac ni fydd angen unrhyw gymorth ychwanegol ar y mwyafrif o bobl sy'n treulio ychydig iawn o amser yn gofalu.

¹ [Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant \(Cymru\) 2014](#)

² Gofalwyr Cymru (2015)

³ Gofalwyr Cymru <https://www.carersuk.org/wales/news-campaigns/news/unpaid-carers-in-wales-feel-demoralised-and-disillusioned>

6. Fodd bynnag, mae gan Gymru hefyd y gyfran uchaf o ofalwyr hŷn a gofalwyr sy'n darparu mwy na 50 awr o ofal yr wythnos.⁴ Ers dechrau'r pandemig, mae nifer y gofalwyr yng Nghymru wedi cynyddu - cyhoeddodd Arolwg Cenedlaethol Cymru adroddiad misol ym mis Mehefin 2020, a ddangosodd fod 35% o bobl yn gofalu am aelodau'r teulu, ffrindiau, cymdogion neu eraill, neu'n rhoi cymorth neu gefnogaeth iddynt. Mae hyn wedi cynyddu o 29% yn arolwg blwyddyn lawn 2019-20.
7. Rhaid cydnabod a dathlu cyfraniad gofalwyr di-dâl i economi Cymru fel nad yw llesiant y gofalwyr yn cael ei fwrw i'r cysgod gan bryderon am yr unigolyn neu'r bobl y maent yn gofalu amdanynt. Fodd bynnag, mae peidio â gwneud rhagdybiaethau bod pob gofalwr yn gwbl abl neu'n barod i ymgymryd â rôl ofalu neu barhau â'r rôl hon yr un mor bwysig.
8. Mae gennym rwymedigaeth foisol, cyfreithiol ac ymarferol i gefnogi pobl sy'n darparu lefelau sylweddol o ofal neu'n cydbwysu gofal ochr yn ochr ag ymrwymadau sylweddol eraill megis cyflogaeth neu addysg. Rhwymedigaeth foisol, oherwydd ein hymrwymiad i lesiant pawb yng Nghymru. Rhwymedigaeth gyfreithiol, oherwydd bod hawliau gofalwyr wedi'u hymgorffori yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, (gyda Rheoliadau, Codau Ymarfer⁵ a chanllawiau statudol cysylltiedig). Rhwymedigaeth ymarferol, oherwydd os na all mwy a mwy o ofalwyr di-dâl ymdopi, bydd hynny'n rhoi gwasanaethau cyhoeddus ac adnoddau cyhoeddus cyfyngedig dan bwysau mawr.
9. Rydym am i'r cynllun hwn fod yn gam cyntaf tuag at sicrhau dealltwriaeth gyffredin o lefel ac ansawdd y cymorth y dylai gofalwyr ei gael ar wahanol adegau yn eu bywydau. I rai, gallai hyn fod yn yr ysgol, yn y gwaith, yn eu cymuned leol neu gartref.
10. Mae cymorth i ofalwyr yn ehangach nag iechyd a gofal cymdeithasol ac mae angen ymateb cydgysylltiedig gan Lywodraeth Cymru a'r sector cyhoeddus, y trydydd sector a'r sector preifat. Rydym am i'r cynllun cenedlaethol hwn ar gyfer gofalwyr herio pawb i ystyried y camau y gallant eu cymryd i wella bywydau gofalwyr o bob oedran a chefnidir yng Nghymru.

Thema graidd - atal ac ymyrraeth gynnar

11. Ein gweledigaeth yw i bawb yng Nghymru gael bywydau hirach, iachach a hapusach a pharhau i fod yn egniol, yn annibynnol gan fyw yn eu cartrefi eu hunain cyhyd ag y bo modd. Felly rydym yn gweithio tuag at ddull system gyfan o ymdrin ag iechyd a gofal cymdeithasol sy'n canolbwyntio ar gadw pobl yn iach drwy ragweld anghenion iechyd, atal salwch, a lleihau effeithiau iechyd gwael. Mae'r dull hwn wedi dod yn bwysicach yng ngoleuni effaith Covid-19 ar unigolion a chymunedau yng Nghymru.
12. Mae Cymru lachach yn cydnabod cyfraniad amhrisiadwy gofalwyr di-dâl at gymunedau Cymru ac yn pwysleisio'r angen i gydnabod a chefnogi'r rôl hanfodol a chwaraeir gan y gweithlu anffurfiol hwn, gan adlewyrchu'r egwyddor bod gofalwyr, os cânt eu cefnogi'n effeithiol, yn darparu gwasanaeth ataliol ynddynt eu hunain.

⁴ https://gofalcymdeithasol.cymru/cms_assets/file-uploads/Cymorth-ataliol-ar-gyfer-gofalwyr-syn-oedolion-yng-Nghymru.pdf

⁵ <https://gofalcymdeithasol.cymru/hyb/deddf-sswb>

13. Yn strategaeth genedlaethol Llywodraeth Cymru, Ffyniant i Bawb, amlinellir ffordd radical a gwahanol o weithio i oresgyn yr heriau mwyaf sylfaenol y mae'r genedl yn eu hwynebu. Mae'r strategaeth yn cydnabod bod integreiddio a chydweithio rhwng gwasanaethau wedi'u cefnogi gan ymyrraeth gynnar a dull sy'n canolbwyntio ar bobl, yn hanfodol i sicrhau canlyniadau hirdymor ar gyfer gofal cymdeithasol.
14. Mae ymyrraeth a gwaith atal cynnar yn hanfodol ac mae angen inni ystyried yr hyn y gellir ei wneud i helpu i atal gofalwyr rhag cyrraedd y pwynt ble maent yn wynebu argyfwng. Mae angen inni ymgorffori'r agweddau ataliol ar Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yn fwy effeithiol mewn gwasanaethau cyhoeddus a symud darparwyr gwasanaethau allweddol, gan gynnwys y trydydd sector, tuag at fodel gwell o gymorth i ofalwyr. Os na fyddwn yn datrys y materion allweddol hyn nawr, bydd mwy o ofalwyr a'r bobl y maent yn gofalu amdanynt, mewn sefyllfa lle maent yn wynebu argyfwng cyn iddynt ddefnyddio gwasanaethau cymorth hanfodol. Bydd hyn yn ei dro yn cynyddu'r pwysau ar y GIG a'r gwasanaethau cymdeithasol.
15. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn gosod rhagor o ddyletswyddau ar awdurdodau lleol i ymgorffori dull ataliol drwy ystyried effaith hirdymor eu gweithredoedd. Mae'n ofynnol i gyrff cyhoeddus fabwysiadu dull mwy cydgysylltiedig o ddylunio a darparu gwasanaethau. Rhaid iddynt hefyd weithio mewn partneriaeth ag unigolion a chymunedau. Mae'r dull hwn yn cefnogi cyfeiriad strategol a bwriad y cynllun hwn.

Beth yw'r sefyllfa bresennol?

16. Mae Llywodraeth Cymru wedi gweithredu'n gyson i wella bywydau gofalwyr. Cyhoeddwyd strategaeth gyntaf Cymru ar gyfer gofalwyr yn 2000, cyhoeddwyd Mesur Strategaethau ar gyfer Gofalwyr (Cymru) yn 2010 a chyhoeddwyd Strategaeth ar gyfer Gofalwyr ar ei newydd wedd a Chynllun Cyflawni 2013-2016 yn 2013.
17. Disodlwyd Mesur Gofalwyr 2010 Llywodraeth Cymru gan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, gan gryfhau hawliau statudol gofalwyr. Am y tro cyntaf mae gan ofalwyr yr un hawl i gael asesiad a chymorth â'r rhai y maent yn gofalu amdanynt. Bellach, nid oes angen i ofalwyr ddangos eu bod yn darparu swm sylweddol o ofal yn rheolaidd er mwyn cael eu hystyried yn ofalwr. Os oes gan ofalwyr anghenion sy'n gymwys i gael cymorth, mae gan yr awdurdod lleol ddyletswydd statudol i gynllunio ar gyfer yr anghenion hynny a'u diwallu drwy ddarparu 'Cynllun Cymorth i Ofalwyr.'
18. Gwnaed cynnydd sylweddol drwy ddeddfwriaeth, polisiau a ffrydiau cyllido newydd i alluogi byrddau iechyd, awdurdodau lleol a phartneriaid yn y trydydd sector i gefnogi gofalwyr.

Er mwyn cefnogi gofalwyr yng Nghymru, rydym yn gwneud y canlynol:

19. Rydym yn darparu £1.295 miliwn yn 2020/21 i gefnogi gweithgaredd sy'n cyflawni ein tair blaenoriaeth genedlaethol ar gyfer gofalwyr. Mae hyn yn cynnwys £1 miliwn i fyrddau iechyd lleol a'u partneriaethau gofalwyr ar gyfer ystod o weithgaredd i gefnogi gofalwyr o bob oed; cyllid ar gyfer Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar Ofalwyr a'r Grŵp Ymgysylltu â Gofalwyr newydd, hyd at £236,000 ar gyfer datblygu model cardiaid adnabod cenedlaethol i Ofalwyr Ifanc, a £14,000 o gyllid ar gyfer y Rhwydwaith Gofalwyr Ifanc.

20. Yn 2020-21, mae Llywodraeth Cymru yn darparu £1 miliwn ar gyfer cronfa galedi genedlaethol i ofalwyr. Wedi'i chyflwyno drwy Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru a'i phartneriaid lleol, bydd yn galluogi gofalwyr sy'n ei chael hi'n anodd yn ariannol i brynu eitemau hanfodol gan gynnwys bwyd, dodrefn, nwyddau gwyn megis peiriant golchi, neu liniadur.
21. Rydym yn darparu £2.6 miliwn, dros dair blynedd, i Gofalwyr Cymru, Fforwm Cymru Gyfan i Rien i Gofalwyr, Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru ac Age Cymru drwy ein Cynllun Grant i'r Trydydd Sector ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy a ddechreuodd ym mis Ebrill 2020. Nod y pedwar prosiect hyn yw darparu ystod o gymorth i ofalwyr o bob oed.
22. Yn gynharach eleni, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei hadroddiad blynyddol cyntaf ar y Gronfa Gofal Integredig. Mae'r adroddiad yn dangos bod £1.141 miliwn wedi'i wario ar wasanaethau yn 2018-19 sy'n cefnogi gofalwyr yng Nghymru **yn uniongyrchol**. Mae hyn yn ychwanegol at y buddsoddiad drwy brosiectau ehangach eraill sy'n cefnogi, er enghraifft, pobl hŷn a phlant ag anghenion cymhleth, sydd hefyd yn cael effaith gadarnhaol ar fywydau gofalwyr.
23. Ein disgwyliad yw y bydd gwariant ar ofalwyr ledled Cymru yn cynyddu o flwyddyn i flwyddyn. Yn 2019-20 gwariwyd tua £7.891 miliwn yn uniongyrchol ar brosiectau a gwasanaethau i gefnogi gofalwyr. Bydd ein hadroddiad blynyddol nesaf ar y Gronfa Gofal Integredig, a gyhoeddir yn yr hydref, yn dangos sut mae'r grŵp pwysig hwn o bobl yn elwa o'r gronfa.
24. Ym mis Tachwedd 2019 lanswyd ymgyrch genedlaethol i godi ymwybyddiaeth o hawliau gofalwyr i bob oed yn hysbysu gofalwyr am eu hawliau o dan Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae hyn yn tynnu sylw at eu hawl i gael mynediad at asesiad o anghenion gofalwyr. (Bydd yr ymgyrch hon yn ailgychwyn pan fydd yr amgylchiadau'n caniatáu).
25. Rydym yn bwrw ymlaen â'n dull gweithredu dwy flynedd, fesul cam ar gyfer 2020-2022, i gynhyrchu model cenedlaethol ar gyfer cynllun cardiau adnabod gofalwyr ifanc, mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol ac Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru.
26. Fe wnaethom ddarparu cyllid uniongyrchol o £35,000 i Gofalwyr Cymru er mwyn cyfieithu a lansio'r cwrs sgiliau ar-lein achrededig newydd, "Dysgu ar gyfer Byw" City & Guilds, i ofalwyr.
27. Rydym yn parhau i weithio gyda Gofalwyr Cymru fel aelodau corfforaethol o raglen Cyflogwyr i Ofalwyr Cymru. Wedi'i ddarparu gan Gofalwyr Cymru, mae Hwb Cymru yn cefnogi pob cyflogwr i ddeall a gweithredu polisiau ac arferion yn well er mwyn cefnogi eu gweithwyr sydd â chyfrifoldebau gofalu.

Ymchwiliad y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon - Gofalu am ein dyfodol⁶

28. Dechreuodd pwyllgor y Senedd ei ymchwiliad - "Effaith Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 mewn perthynas â Gofalwyr" - yn 2018. Cylich gwaith yr ymchwiliad oedd asesu effaith Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ar ofalwyr o bob oed yng Nghymru, gan gynnwys:
 - asesu angen;
 - darparu cefnogaeth, gan gynnwys gofal seibiant;

⁶ <https://busnes.senedd.cymru/mglIssueHistoryHome.aspx?Ild=022518>

- darparu gwybodaeth, cyngor a chynhorthwy;
 - gwybodaeth a gesglir gan awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol am ofalwyr a'u hanghenion; ac
 - ystyried polisi ehangach Llywodraeth Cymru ar ofalwyr.
29. Cyhoeddwyd adroddiad y Pwyllgor, *Gofalu am ein dyfodol*, ar 21 Tachwedd 2019⁷. Ymatebodd Llywodraeth Cymru i 31 o argymhellion yr adroddiad ym mis Ionawr 2020⁸ ac anfonodd y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol lythyr diweddarau dilynol at Gadeirydd y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon, Dr Dai Lloyd, ym mis Gorffennaf 2020⁹.
30. Pwysleisiodd y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol bwysigrwydd cynllun cenedlaethol ar gyfer gofalwyr mewn cyfarfod o Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar Ofalwyr ym mis Mai 2019. Yna cyhoeddwyd y bwriad hwn mewn Datganiad Ysgrifenedig ar 21 Tachwedd 2019 i nodi Diwrnod Hawliau Gofalwyr¹⁰.

2. Covid-19

31. Mae Covid-19 wedi cael effaith ar iechyd meddwl a llesiant llawer o ofalwyr sydd wedi bod yn poeni am ddal y salwch a'i drosglwyddo i'r rhai y maent yn gofalu amdanynt. Mae gofalwyr hefyd wedi wynebu pwysau ychwanegol oherwydd effaith y pandemig ar y gweithlu gofal cymdeithasol.
32. I rai gofalwyr, mae'r ffaith bod cyfleusterau sy'n darparu cyfleoedd i gael seibiant ar gau, megis canolfannau dydd, grwpiau cymunedol, neu'r ffaith na allant gael gwasanaeth gwarchod dros nos, wedi gwneud eu rôl ofalu yn fwy heriol. Ysgwyddodd rhai gofalwyr fwy o gyfrifoldebau gofalu oherwydd pryderon ynghylch gweithwyr gofal cartref yn dod i'r cartref ac o bosibl yn lledaenu Covid-19. Mae eraill wedi bod yn poeni am ddiffyg mynediad at asesiad o anghenion gofalwyr, ac wedi cael anawsterau o ran cael gafael ar fwyd neu feddyginiaeth.
33. Mae'r coronafeirws wedi cynyddu'r pwysau ar bawb - gofalwyr, sefydliadau'r trydydd sector, llywodraeth leol a chenedlaethol a byrddau iechyd - roedd gofalwyr yn cefnogi gwasanaethau allweddol yng Nghymru i ymdopi â'r pwysau cynyddol yn sgil y pandemig. Er mwyn ymateb i'r pwysau ychwanegol sydd ar ofalwyr yn sgil y coronafeirws, fe wnaethom ddyrannu £50,000 yn ychwanegol i Gofalwyr Cymru er mwyn cynnig cymorth seicolegol i ofalwyr.
34. Rydym wedi parhau i weithio'n agos â sefydliadau sy'n cynrychioli ac yn darparu cefnogaeth i ofalwyr di-dâl i ddeall yn llawn effaith Covid-19 ar eu bywydau ac i gymryd camau priodol. Rydym yn parhau i gasglu gwybodaeth drwy Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar Ofalwyr a'r grŵp Ymgysylltu ategol. Mae'r ddau yn llywio gwaith cynllunio Llywodraeth Cymru ar gyfer adferiad, ac ail don bosibl o Covid-19 yng Nghymru.

⁷ [Gofalu am ein dyfodol Ymchwiliad i effaith Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant \(Cymru\) 2014 mewn perthynas â gofalwyr](#)

⁸ [Ymateb ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru i Adroddiad Ymchwiliad y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon i Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant \(Cymru\) 2014 a'i heffaith ar ofalwyr](#)

⁹ [Llythyr gan y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol - 14 Gorffennaf 2020](#)

¹⁰ [Datganiad Ysgrifenedig: Ddiwrnod Cenedlaethol Hawliau Gofalwyr 2019](#)

Cwestiynau'r ymgynghoriad

1. Sut mae Covid-19 wedi effeithio ar eich bywyd chi fel gofalwr, neu fel sefydliad sy'n cefnogi gofalwyr?
2. Beth ydych chi'n meddwl y dylai Llywodraeth Cymru ei flaenoriaethu i roi gwell cefnogaeth i ofalwyr di-dâl sy'n cael eu heffeithio gan Covid-19, nawr ac os byd tonnau eraill o'r haint?

3. Gofalwyr â nodweddion gwarchoddedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010

35. Mae Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus a gynhwysir yn Neddf Cydraddoldeb 2010, a'n dyletswyddau cydraddoldeb penodol yng Nghymru yn ei gwneud yn ofynnol inni nodi'r hyn y gallwn ei wneud i ddileu rhwystrau a gwella cyfranogiad a chanlyniadau i bobl sydd heb gynrychiolaeth ddigonol neu'n dioddef anfantais anghymesur. Y nodweddion gwarchoddedig yw:
- oedran
 - anabledd
 - ailbennu rhywedd
 - beichiogrwydd a mamolaeth
 - hil
 - crefydd neu gred
 - rhyw
 - cyfeiriadedd rhywiol
36. Drwy'r ymgynghoriad hwn, rydym yn awyddus i ddeall sut y gallai fod angen mathau penodol o gymorth ar wahanol grwpiau o bobl â nodweddion gwarchoddedig, fel bod y ffordd y mae ein polisïau a'n gwasanaethau yn cael eu llunio a'u cyflawni yn ystyried anghenion y grwpiau hynny.
37. Mae Covid-19 wedi dangos bod risg uwch i iechyd unigolion o gefndiroedd a chymunedau Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig (BAME) yn sgil y coronafeirws. Felly mae'n bwysig ein bod yn deall sut y gall eu profiadau hwy a phrofiadau gofalwyr BAME helpu i lunio'r cynllun newydd hwn.
38. Rydym am i'r cynllun gynnwys ffocws ar anghenion gwahanol ofalwyr, yn unol â dull sy'n seiliedig ar dystiolaeth, sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Dangosodd cyfrifiad 2011 mai menywod yw mwyafrif y gofalwyr - ledled y DU, mae 58 y cant o ofalwyr yn fenywod, ac mae 20 y cant o'r holl fenywod rhwng 45 a 54 oed yn darparu gofal di-dâl i rywun ag anabledd neu salwch, neu i berson hŷn.
39. Mae angen inni ystyried y rhwystrau ieithyddol a'r disgwyliadau diwylliannol a all gael effaith ar sut mae person yn darparu gofal. Efallai y bydd gan y rhai o wahanol gefndiroedd diwylliannol ganfyddiadau gwahanol o rôl gofalwr di-dâl. Efallai na fydd unigolion yn gweld eu hunain fel gofalwr ac efallai nad ydyn nhw am gael cymorth na deall eu hawliau fel gofalwr.
40. Rydym yn paratoi Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (fel rhan o'r Asesiad Effaith Integredig ehangach) i'n helpu i ddadansoddi ac ystyried sut y gall gwasanaethau prif ffrwd gefnogi anghenion gofalwyr sydd â nodweddion gwarchoddedig. Bydd casglu a dadansoddi adborth gan ofalwyr yn hanfodol er

mwyn inni ddeall anghenion a phrofiadau pob gofalwr, ac i roi gwybod inni yr hyn y mae angen inni ei wneud i gael gwared ar rwystrau a gwella gwasanaethau i ofalwyr sydd â nodweddion gwarchoddedig.

41. Wrth i'n cymdeithas heneiddio, mae nifer y bobl sy'n byw gydag anghenion cymhleth yn cynyddu. Felly mae'n anochel y bydd mwy o bobl hŷn yn ymgymryd â rôl ofalu. Mae'r rhan fwyaf o ofalwyr hŷn yn byw ar eu pen eu hunain gyda'r person y maen nhw'n gofalu amdano ac mae llawer hefyd yn byw gyda chyflyrau sy'n cyfyngu ar fywyd.¹¹ Mewn ymateb i'r ddemograffeg sy'n heneiddio yng Nghymru, rydym yn datblygu strategaeth newydd, sef Strategaeth ar gyfer Cymdeithas sy'n Heneiddio. O ystyried y nifer cynyddol o bobl hŷn a'r rhai o oedran gweithio sy'n darparu gofal di-dâl, mae'n hollbwysig gweithredu'r strategaeth honno ar ffurf cynllun cenedlaethol ar gyfer gofalwyr.

Cwestiynau'r ymgynghoriad

3. Beth yw'r prif anghydraddoldebau y mae gofalwyr â nodweddion gwarchoddedig yn eu hwynebu y dylai'r Cynllun Cenedlaethol newydd ar gyfer Gofalwyr fynd i'r afael â nhw?

Gofalwyr ifanc ac oedolion sy'n ofalwyr ifanc

42. Mae tua 30,000 o ofalwyr o dan 25 oed yng Nghymru. Yn ôl cyfrifiad 2011, Cymru sydd â'r gyfran uchaf o ofalwyr o dan 18 oed yn y DU. Mae'r nifer hwn yn debygol o fod wedi cynyddu yn ystod y pandemig.
43. Plant neu'n bobl ifanc a chanddynt rôl arwyddocaol o ran gofalu am aelod o'r teulu yw gofalwyr ifanc. Gallai'r aelod o'r teulu fod yn dioddef o broblem iechyd corfforol neu feddyliol, anabledd neu broblemau'n ymwneud â chyffuriau ac alcohol, er enghraifft. Efallai na fydd gofalwyr ifanc yn cydnabod bod eu rôl yn y teulu yn wahanol i rôl plant a phobl ifanc eraill, ond yn aml maent yn ysgwyddo beichiau corfforol a seicolegol mawr. Yn aml nid oes gan ofalwyr ifanc fawr ddim amser iddyn nhw eu hunain, os o gwbl, a gallant golli elfennau o'u plentyndod.
44. Ymhlith rhai o'r problemau y gallai gofalwyr ifanc eu hwynebu mae anawsterau gyda'r ysgol a gwneud gwaith cartref; dim digon o amser i weld ffrindiau; poeni am y person maen nhw'n gofalu amdano; teimlo'n wahanol i bobl ifanc eraill a phobl eraill ddim yn deall sut beth yw bod yn ofalwr ifanc.
45. Mae gofalwyr sy'n oedolion ifanc fel arfer yn ofalwyr rhwng 16 a 25 oed. Gallant fod yn jyglo eu cyfrifoldebau gofalu gydag addysg bellach neu addysg uwch; chwilio am waith neu geisio ymdopi â'r system budd-daliadau; dechrau eu bywydau gwaith; perthynas emosiynol ddifrifol neu feddwl am adael cartref. Gallant felly wynebu problemau sy'n wahanol i broblemau gofalwyr ifanc.
46. Yn ystod y cyfyngiadau symud yn sgil Covid-19, nid oedd llawer o ofalwyr ifanc a gofalwyr sy'n oedolion ifanc yn gallu defnyddio eu dulliau cymorth arferol, megis ffrindiau neu deulu ehangach, ac efallai eu bod wedi bod o dan fwy o bwysau emosiynol o ganlyniad. Efallai fod gofalwyr ifanc a gofalwyr sy'n oedolion ifanc wedi bod yn gofalu am fwy o oriau bob wythnos ac yn ymgymryd â thasgau fel siopa ar gyfer y cartref, casglu meddyginiaeth o fferyllfeydd, ynghyd â cheisio dysgu gartref pan oedd ysgolion a cholegau ar gau.

¹¹ Gofalwyr Cymru 2018 Cyflwr y Genedl

Cwestiynau'r ymgynghoriad

47. **Beth yw'r heriau allweddol rydych chi'n eu hwynebu fel gofalwr ifanc/gofalwr sy'n oedolyn ifanc neu fel sefydliad sy'n cefnogi gofalwyr ifanc?**
48. **Pa gymorth ychwanegol fyddai'n helpu? (I ofalwyr ifanc/gofalwyr sy'n oedolion ifanc).**
49. **Sut mae Covid-19 wedi effeithio ar eich bywyd bob dydd?**

4. Y blaenoriaethau cenedlaethol ar gyfer gofalwyr

50. Mae'r cynllun newydd yn cael ei ddatblygu yng nghyd-destun y tair blaenoriaeth genedlaethol bresennol ar gyfer gofalwyr a lansiwyd ym mis Tachwedd 2017¹². Er nad ydym yn bwriadu dod â'r blaenoriaethau i ben na'u hailwampio'n llwyr, rydym yn awyddus i ddefnyddio'r ymgynghoriad hwn i archwilio sut y gellir eu gwella i adlewyrchu'n well amrywiaeth y gofalwyr a'u profiadau personol yng Nghymru.
51. Er mwyn adlewyrchu'r materion a amlinellwyd yn adrannau blaenorol y ddogfen hon yn well, rydym wedi ehangu'r esboniadau o dan bob blaenoriaeth, ac yn cynnig ychwanegu pedwaredd flaenoriaeth. Mae'r tair blaenoriaeth bresennol, a'r bedwaredd flaenoriaeth arfaethedig ychwanegol, wedi'u nodi isod.

Blaenoriaeth Un

Adnabod a chydabod gofalwyr – mae gofalwyr yn haeddu cael eu hadnabod a'u cefnogi er mwyn iddynt allu parhau i ofalu.

52. Mae gofalwyr yn gwneud cyfraniad aruthrol at gymdeithas ac yn haeddu cael eu cydnabod a'u cefnogi er mwyn iddynt allu parhau i ofalu. Mae'n hanfodol bod gofalwyr yn nodi eu bod yn ofalwyr oherwydd heb wybodaeth, cyngor a chynhorthwy amserol neu asesiad o anghenion gofalwr a sicrhau bod unrhyw anghenion cymorth cymwys yn cael eu diwallu, gallai iechyd a llesiant y gofalwr, ac iechyd y rhai y maent yn gofalu amdanynt, ddioddef.

Sut rydym yn gweithredu ar y flaenoriaeth hon?

53. Rydym yn bwriadu defnyddio'r data a gasglwn a'n gwaith diweddar gyda Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar Ofalwyr i ddatblygu ystod o atebion sy'n galluogi awdurdodau lleol i ddarparu asesiadau statudol amserol ac effeithiol sy'n ymatebol i'r cymorth sydd ei angen ar ofalwyr.
54. Byddwn yn parhau â'n hymgyrch i godi ymwybyddiaeth o Hawliau Gofalwyr¹³ a gweithio gyda rhanddeiliaid allweddol i hyrwyddo ei negeseuon i gynulleidfa ehangach gan gynnwys gofalwyr ifanc. Byddwn yn sicrhau bod negeseuon yr ymgyrch yn cyrraedd pobl nad ydynt ar-lein drwy gynhyrchu posteri a thafleini, ar ôl defnyddio hysbysebion radio yn y gorffennol a sicrhau bod y daflen wybodaeth allweddol ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.
55. Byddwn yn gweithio gyda Gofal Cymdeithasol Cymru ac yn ei gomisiynu i ddatblygu rhagor o adnoddau hyfforddi a gwybodaeth, fel sy'n briodol, ar gyfer y

¹² <https://llyw.cymru/diwrnod-hawliau-gofalwyr-llywodraeth-cymru-yn-cyhoeddi-cynlluniau-newydd-i-wella-bywydau-gofalwyr>

¹³ <https://llyw.cymru/y-gyfraith-ar-ofal-chymorth-hawliau-gofalwyr>

gweithlu gofal cymdeithasol¹⁴, i gynyddu ymwybyddiaeth o anghenion gofalwyr a'r rôl ofalu a gwella'r modd y darperir gwasanaethau.

56. Drwy ein Grant i'r Trydydd Sector ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy¹⁵ rydym yn ariannu tri phrosiect penodol ar gyfer gofalwyr gwerth £2.1 miliwn dros dair blynedd. Bydd Gofalwyr Cymru ac Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru yn gweithio i drawsnewid cydnabyddiaeth, parch a chymorth i ofalwyr ar draws lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru. Bydd prosiect Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru yn cefnogi gweithwyr iechyd proffesiynol i wella eu systemau a'u prosesau drwy ddatblygu gwell dealltwriaeth o anghenion a hawliau gofalwyr. Drwy'r un grant trydydd sector, rydym yn ariannu Age Cymru i ddatblygu modelau gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a all adnabod gofalwyr hŷn a gofalwyr pobl â dementia a diwallu eu hanghenion yn well.

Yn ogystal â hynny, mae gofalwyr a'u cynrychiolwyr wedi awgrymu y dylem:

57. Annog newid diwylliant o ran y ffordd y mae gweithwyr proffesiynol yn siarad am ofalwyr a gyda gofalwyr - mae gwahaniaethau yn ffurfioldeb yr iaith a ddefnyddir gan weithwyr proffesiynol a bywyd go iawn; ac
58. Ystyried sut i ddefnyddio wynebau go iawn a sefyllfaoedd go iawn i helpu pobl i ddeall manteision uniaethu fel gofalwr.

Cwestiynau'r ymgynghoriad
7. Ydych chi'n cytuno â'r camau gweithredu sy'n cael eu hawgrymu uchod?
8. A oes unrhyw beth mwy y dylai cyrff cyhoeddus a'u partneriaid ei wneud i nodi a chydnabod gofalwyr?
9. A ddylid newid geiriad presennol Blaenoriaeth Un? Os felly, sut?

Blaenoriaeth dau

Helpu i fyw yn ogystal â gofalu – rhaid i bob gofalwr gael seibiannau rhesymol o ofalu er mwyn iddynt allu parhau i wneud hynny, ac i gael bywyd eu hunain y tu hwnt i ofalu.

59. Mae gofalwyr yn darparu gwasanaeth gwerthfawr i'r bobl y maent yn gofalu amdanynt a chymdeithas yn gyffredinol ond maent yn tueddu i esgeuluso eu hanghenion eu hunain. Dylai fod gan ofalwyr fynediad cyfartal i fathau gwahanol ac arloesol o egwyl fer a/neu seibiant, fel chwaraeon, hamdden a chyfleoedd diwylliannol yn ogystal â mathau mwy traddodiadol o seibiannau fel gwasanaeth gwarchod dros nos i'r sawl sy'n derbyn gofal.

Sut rydym yn gweithredu ar y flaenoriaeth hon?

60. Wrth i ofal seibiant symud i ffwrdd o'r model "traddodiadol" o ofal dros nos i'r unigolyn ag anghenion gofal, mae angen inni ddeall sut y gellir ailddiffinio gwasanaethau seibiant er mwyn diwallu anghenion unigolion. Gall seibiant

¹⁴ <https://gofalcymdeithasol.cymru/gwella-gwasanaethau/gweithio-gyda-gofalwyr>

¹⁵ <https://llyw.cymru/grant-ir-trydydd-sector-ar-gyfer-gwasanaethau-cymdeithasol-cynaliadwy-2020-23-prosiectau-ariennir>

gynnwys corau i ofalwyr, grwpiau gofalwyr ifanc a grwpiau cymorth cymheiriaid. Rydym hefyd yn gwybod bod unigolion sy'n manteisio ar Daliadau Uniongyrchol¹⁶ yn defnyddio'r dull hwn i gael mynediad at wahanol fathau o seibiant, sy'n gweddu orau i anghenion yr unigolyn a/neu'r gofalwr.

61. Mae llawer o ofalwyr, gan gynnwys gofalwyr ifanc, yn dymuno cael seibiant ar ffurf egwyl fer i'r teulu a gwyliau. Felly rydym wedi trafod modelau seibiant a chyllid yr Alban gyda Shared Care Scotland, gan gynnwys eu cronfa egwyl fer (Short Breaks Fund)¹⁷ a Chynlluniau 'Respitality'. Cynhaliwyd cynhadledd ddwyochrog rhwng Cymru a'r Alban ar-lein ym mis Mai, a ddaeth ag academyddion, swyddogion y llywodraeth, sefydliadau gofalwyr cenedlaethol a chyrff allweddol eraill ynghyd i gyfnewid syniadau a dysgu.
62. Rydym hefyd yn cydnabod y gallai gofalwyr elwa o gefnogaeth seicolegol ar ffurf cwnsela ar gyfer straen neu brofedigaeth. Yn ystod Covid-19, fe wnaethom ddarparu cyllid ychwanegol i Ofalwyr Cymru a Gofal Profedigaeth Cruse i ymestyn eu gwasanaethau cwnsela a llesiant emosiynol.

Yn ogystal â hynny, mae gofalwyr a'u cynrychiolwyr wedi awgrymu y dylem:

- Ystyried a ddylem barhau i ddefnyddio'r term "seibiant";
- Diffinio seibiant ac egluro'r gwahaniaeth rhwng seibiant ac egwyl fer;
- Datblygu rhestr hyblyg o ddewisiadau/cynigion seibiant posibl i hysbysu unigolion, eu teuluoedd a'u cyrff dosbarthu; ac
- Egluro pwy sy'n gyfrifol am ddarparu gofal seibiant.

Cwestiynau'r ymgynghoriad

10. Ydych chi'n cytuno â'r awgrymiadau uchod?
11. A oes unrhyw beth arall y dylem ei wneud i helpu pobl i fyw yn ogystal â gofalu?
12. Sut y gallwn ni wella'r cymorth seicolegol sy'n cael ei darparu i ofalwyr?
13. Pa fathau o ofal seibiant ydych chi'n eu defnyddio neu'n eu darparu fel arfer? Sut mae Covid-19 wedi effeithio ar eich gwasanaethau seibiant?
14. A ddylid newid geiriad presennol Blaenoriaeth Dau? Os felly, sut?

Blaenoriaeth tri

Darparu gwybodaeth, cyngor a chynhorthwy i ofalwyr – Mae'n bwysig bod gofalwyr yn cael yr wybodaeth a'r cyngor cywir yn ôl yr angen ac mewn fformat priodol.

63. Mae darparu gwybodaeth, cyngor a chynhorthwy priodol yn gamau cyntaf hanfodol o ran dull ataliol. Mae llawer o ofalwyr nad oes angen gwasanaethau cymdeithasol neu ddarpariaeth iechedd ffurfiol neu benodol arnynt. Y cyfan sydd ei angen arnynt yw'r wybodaeth iawn, yn y fformat iawn, ar yr adeg iawn, er mwyn rheoli eu rôl ofalu. Gall gwybod ble a sut i gael gafael ar wahanol fathau o wybodaeth, cyngor a chynhorthwy fel budd-daliadau lles neu hawliau mwy cyffredinol, hefyd fod yn gam ataliol e.e. help i ofalwyr sy'n cael anawsterau ariannol.

¹⁶ <https://gofalcymdeithasol.cymru/gwella-gwasanaethau/taliadau-uniongyrchol-canllaw>

¹⁷ <https://www.sharedcarescotland.org.uk/shortbreaksfund/>

Sut rydym yn gweithredu ar y flaenoriaeth hon?

64. dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, rhaid i awdurdodau lleol roi cyhoeddusrwydd i wybodaeth am:
- sut mae'r system gofal a chymorth yn gweithredu yn ardal yr awdurdod lleol;
 - y mathau o ofal a chymorth sydd ar gael;
 - sut i gael gafael ar y gofal a'r cymorth sydd ar gael; a
 - sut i godi pryderon ynghylch llesiant unigolyn yr ymddengys fod ganddo anghenion gofal a chymorth.
65. Bwriad gwybodaeth, cyngor a chynhorthwy yw cefnogi gwaith atal ac ymyrraeth gynnar a darparu ystod ehangach o wasanaethau yn y gymuned drwy bartneriaethau a gwaith amlasiantaeth. Wedi'u cyflwyno'n dda, ac ar yr adeg iawn, gall gwybodaeth, cyngor a chynhorthwy alluogi gofalwyr, a'r rhai y maent yn gofalu amdanynt, i fyw bywydau iach a chyflawn cyhyd ag y bo modd. Er mwyn osgoi amrywiadau daearyddol yn y gwasanaethau sydd ar gael ledled Cymru ('loteri cod post'), mae'n hanfodol bod yr holl wasanaethau gwybodaeth, cyngor a chynhorthwy yng Nghymru o ansawdd uchel ac yn hygyrch i bawb.
66. Cyhoeddodd Archwilio Cymru (Swyddfa Archwilio Cymru gynt) adroddiad ym mis Medi 2019, yn dwyn y teitl "Y Drws Blaen i Ofal Cymdeithasol i Oedolion"¹⁸, a oedd yn archwilio darpariaeth awdurdodau lleol o Wybodaeth, Cyngor a Chynhorthwy. Canfu hyn fod bron i 70 y cant o ofalwyr 18 oed a hŷn yn ei chael hi'n hawdd gofyn am asesiad. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod y gallwn wneud mwy i godi ymwybyddiaeth o hawliau gofalwyr gan ddefnyddio ein hymgyrch codi ymwybyddiaeth bresennol, neu archwilio ffyrdd eraill o wneud hyn.
67. Galwodd adroddiad Archwilio Cymru hefyd am gomisiynu mwy o wasanaethau eiriolaeth (gan gynnwys eiriolaeth annibynnol). Drwy ein Grant i'r Trydydd Sector ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy, rydym yn ariannu'r **Prosiect HOPE** sy'n ceisio cefnogi pobl hŷn a gofalwyr i gael mynediad at wasanaethau ataliol yn y gymuned drwy ystod o **fodelau eiriolaeth** dan arweiniad cyfoedion, grwpiau gwirfoddol a dinasyddion.

Yn ogystal â hynny, mae gofalwyr a'u cynrychiolwyr wedi awgrymu y dylem:

- Gydnabod na fydd pob gofalwr yn manteisio ar wasanaethau gwybodaeth, cyngor a chynhorthwy awdurdodau lleol ac mae angen codi ymwybyddiaeth o ffyrdd amgen o gael mynediad at wybodaeth fel meddygon teulu, gwasanaethau cymunedol, neu adnoddau ar-lein fel DEWIS Cymru. <https://www.dewis.wales/>
- Mynd i'r afael â chanfyddiadau negyddol rhai gofalwyr ynghylch cyswllt â gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol a'u gwyrddroi.
- Cydnabod bod gan ofal cymdeithasol a gwasanaethau eraill megis tai, trafndiaeth, gwasanaethau diogelu a chynlluniau cyflogadwyedd i gyd gyfrifoldeb i gefnogi gofalwyr.
- Ystyried y gagendor digidol a thlodi digidol yn y cynllun e.e. y gofalwyr hynny, sy'n aml yn ofalwyr hŷn, nad ydynt yn berchen ar ddyfais TG fel ffôn clyfar, llechen neu liniadur.

¹⁸ <https://www.audit.wales/cy/cyhoeddi/y-drws-blaen-i-ofal-cymdeithasol-i-oedolion>

- Cynyddu rôl technoleg i gefnogi anghenion gofalwyr, e.e. cynorthwywyr llais digidol.

Cwestiynau'r ymgynghoriad

15. Ydych chi'n cytuno â'r awgrymiadau uchod?
16. A oes unrhyw beth arall y dylem ei wneud i wella gwasanaethau gwybodaeth, cyngor a chynhorthwy yng Nghymru?
17. Beth rydyn ni wedi'i ddysgu gan Covid-19 a'r angen i gael gwybodaeth hygyrch i ofalwyr mewn cyfnod byr o amser?
18. A oes gennych enghreifftiau o arfer da yn ystod y pandemig y gellid eu hefelychu neu a allai lywio datblygiad gwasanaethau?
19. A ddylid newid geiriad presennol blaenoriaeth tri? Os felly, sut?

Blaenoriaeth pedwar

Byddai'r flaenoriaeth newydd hon yn cysylltu â'r flaenoriaeth helpu i fyw yn ogystal â gofalu.

Cefnogi gofalwyr mewn addysg ac yn y gweithle - dylid cefnogi cyflogwyr a lleoliadau addysg / hyfforddiant i addasu eu polisiau a'u harferion gan alluogi gofalwyr i weithio a dysgu ochr yn ochr â'u rôl ofalu.

68. Mae cael y cyfle i weithio a dysgu yn rhan bwysig o fywyd. Gall ddarparu sefydlogrwydd ariannol a chyflwyno manteision ehangach, sef gyrfa sy'n cynnig boddhad, iechyd meddwl cadarnhaol a chyfle i ryngweithio'n gymdeithasol. Mae gormod o ofalwyr yn gadael cyflogaeth neu'n lleihau eu horiau gwaith er mwyn cydbwysu cyfrifoldebau gofalu â'u gwaith a thrwy hynny maent yn colli cyfleoedd i gamu ymlaen yn eu gyrfa, i gael gwell tâl, neu hyfforddiant a datblygiad. Dylai gofalwyr nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg neu hyfforddiant allu cael gafael ar y wybodaeth, y cyngor a'r cynhorthwy cywir i ddatblygu'r sgiliau i gael cyflogaeth addas, p'un a ydynt yn ailymuno â'r gweithlu, neu'n cael swydd am y tro cyntaf. Mae hefyd yn bwysig cydnabod y gall gofalwr hefyd fod yn hunangyflogedig, rheoli ei fusnes neu ei sefydliad ei hun, ac felly wynebu heriau gwahanol.

Gwaith sydd ar y gweill i weithredu ar y bedwaredd flaenoriaeth arfaethedig:

Gofalwyr mewn addysg

69. Efallai y bydd gofalwyr o bob oed yn dymuno parhau â'u haddysg, yn enwedig os amharwyd ar eu haddysg neu ddatblygiad eu gyrfa oherwydd ymrwymadau gofalu.
70. Bydd gweithredu ar yr ymrwymadau yn *Cymru Iachach* yn caniatáu inni gymhwysu'r egwyddor o 'rywbeth yn gyfnewid am rywbeth arall' ym maes iechyd a gofal cymdeithasol fel bod cyflogwyr, ysgolion a sefydliadau'r trydydd sector yn cael eu herio i chwarae eu rhan wrth greu Cymru iachach drwy gefnogi gofalwyr.
71. Roeddem yn falch o allu cyflawni ein hymrwymiad penodol i ofalwyr a nodir yn Ffyniant i Bawb. Yn 2019-20 fe wnaethom ariannu Gofalwyr Cymru i gyfieithu a lansio adnoddau dysgu sgiliau ar-lein Carers UK - Dysgu ar gyfer Byw - sy'n

rhoi cyfle i unrhyw ofalwr gwblhau cwrs sgiliau achrededig. Byddwn yn parhau i hyrwyddo'r adnodd dysgu hwn.

Gofalwyr ifanc / Gofalwyr sy'n oedolion ifanc

72. Mae'r holl flaenoriaethau cenedlaethol a'r camau gweithredu arfaethedig yr un mor berthnasol i ofalwyr o bob oed. Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf o ofalwyr ifanc yn yr ysgol neu'n mynychu'r coleg ac felly mae angen iddynt gydbwysu eu dysgu a'u datblygiad personol â'u cyfrifoldebau gofalu. Mae gofalwyr sy'n oedolion ifanc (a ystyrir fel arfer yn bobl ifanc rhwng 16 a 25 oed) yn wynebu gwahanol amgylchiadau a gallant fod mewn addysg uwch neu gyflogaeth.
73. Noda ymchwil gan Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru, yr Ymddiriedolaeth Gofalwyr a Phrifysgol Nottingham¹⁹ y gall problemau gyda phresenoldeb neu gyrhaeddiad yn yr ysgol gael effaith negyddol ar ddyfodol gofalwyr ifanc. Yn aml bydd gan ofalwyr ifanc gyrhaeddiad addysgol is ar lefel TGAU ac maent yn fwy tebygol o ddod yn NEET (heb fod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant) rhwng 16 a 19 oed, na'r rhai heb gyfrifoldebau gofalu. Mae hyn yn aml yn arwain at ddiweithdra, enillion is, iechyd gwael ac iselder.
74. Byddwn yn annog awdurdodau lleol i gefnogi ysgolion a ariennir gan y wladwriaeth i adnabod gofalwyr ifanc fel nad yw eu rôl ofalu yn rhoi eu cyrhaeddiad addysgol, eu hiechyd emosiynol a'u llesiant yn y fantol. Mae datblygiad y cwricwlwm newydd, *Cwricwlwm i Gymru*, yn cynnwys ffocws llawer cryfach ar lesiant, ac ar greu dysgwyr uchelgeisiol a galluog ac mae ganddo'r potensial i fynd i'r afael â rhai o'r rhwystrau y mae gofalwyr ifanc yn eu hwynebu.
75. Yn 2019 cyhoeddodd Estyn Adolygiad Thematig o'r cymorth i ofalwyr ifanc mewn ysgolion, AB ac Unedau Cyfeirio Disgyblion²⁰. Gwnaeth gyfres o argymhellion i awdurdodau lleol a gweithwyr addysg proffesiynol ynghylch sut y gallant wella cydnabyddiaeth a chymorth i'w gofalwyr ifanc. Yn y gorffennol, mae Llywodraeth Cymru wedi ariannu pecynnau cymorth ar gyfer ysgolion a cholegau AB ar ffyrdd ymarferol o helpu gofalwyr ifanc. Rydym hefyd wedi ariannu Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru yn 2019-20 i gynhyrchu cyfres o adnoddau hyfforddi a chanllawiau i gefnogi gofalwyr ifanc a'u hathrawon. Mae'r adnoddau hyn bellach ar gael i'w defnyddio mewn ysgolion.
<https://carers.org/resources/all-resources/114-resources-for-teaching-professionals-to-support-young-carers-in-schools->
76. Rydym yn amlwg yn cydnabod yr angen am gysylltiad cryf rhwng ysgolion a'u gwasanaethau lleol i ofalwyr ifanc er mwyn sicrhau bod gofalwyr ifanc yn cael cefnogaeth lawn. Fel rhan o hyn, rydym yn ymwybodol bod rhai ysgolion wedi penodi arweinydd i ofalwyr ifanc er mwyn goruchwyllo'r cymorth y mae gofalwyr ifanc yn ei gael, a'u cyfeirio at wasanaethau i ofalwyr ifanc, ond rydym yn cydnabod y gellir cymhwyso hyn yn fwy cyson.

Gofalwyr mewn cyflogaeth

¹⁹ <https://carers.org/downloads/resources-pdfs/time-to-be-heard/time-to-be-heard-a-call-for-recognition-and-support-for-young-adult-carers.pdf> ac Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru (2018) Support for young carers (heb ei gyhoeddi).

²⁰ <https://www.estyn.gov.wales/thematic-reports/provision-young-carers-secondary-schools-further-education-colleges-and-pupil>

77. Byddwn yn gweithio gyda chyflogwyr a'u cyrff cynrychioliadol i'w hannog i ddarparu gweithleoedd sy'n gyfeillgar i ofalwyr sy'n cefnogi'r nifer cynyddol o weithwyr a gofalwyr hŷn, yn ogystal â gofalwyr ifanc a gofalwyr sy'n oedolion ifanc, yn ein gweithlu. Mae hyn yn cyd-fynd â'n hymrwymiad i egwyddorion a chamau gweithredu Gwaith Teg. Gall rhai sectorau, gyda lefelau uchel o weithwyr hŷn neu fenywod, wynebu pwysau ychwanegol oherwydd cynnydd yn nifer y gofalwyr yn eu gweithlu.
78. Byddwn yn parhau i weithio gyda *Hwb Cyflogwyr i Ofalwyr Cymru*, sy'n helpu sefydliadau yng Nghymru i gefnogi staff sydd â chyfrifoldebau gofalu. Mae'r Hwb yn darparu arweiniad ymarferol, gwasanaeth ymgynghori arbenigol a hyfforddiant ynghyd â chefnogi cyflogwyr i rannu arfer gorau. Gall cyflogwyr gael gafael ar fanylion am sut i gymryd rhan yn yr Hwb yn [Canolfan Cyflogwyr Cymru ar gyfer Gofalwyr](#)
79. Gallai'r cynnydd presennol mewn diswyddiadau, diweithdra oherwydd Covid-19 a'r ffaith bod cynllun ffyrlo Llywodraeth y DU yn dod i ben gael effaith negyddol ar sefyllfa ariannol llawer o ofalwyr. Dywedodd 25% o bobl yng Nghymru fod eu statws economaidd wedi newid ers y brigiad o'r achosion o'r coronafeirws. Mae 74% wedi dweud bod y coronafeirws wedi achosi problemau yn eu bywyd gwaith²¹.

O ran y dyfodol, mae gofalwyr a'u cynrychiolwyr wedi awgrymu y dylem:

- Sicrhau bod dulliau polisi cyson a chysylltiedig yn y llywodraeth, o ran cymorth a chefnogaeth i ofalwyr cyflogedig a gweithio gyda sefydliadau a chynrychiolwyr o'r sector preifat, cynrychiolwyr y Bartneriaeth Gymdeithasol, gan gynnwys undebau llafur ac eraill, i ddeall effaith newidiadau polisi;
- Ystyried yr effaith ariannol ac emosiynol ar fenywod, sy'n fwy tebygol o weithio'n rhan amser neu roi'r gorau i weithio oherwydd anawsterau gyda chydbwyso eu swydd â'u rôl ofalu; a
- Parhau i gefnogi'r cynnig gan lywodraeth ganolog y DU am hawl cyflogaeth newydd, sef wythnos o absenoldeb di-dâl i ofalwyr ar gyfer gweithwyr cymwys.

Cwestiynau'r ymgynghoriad

20. Ydych chi'n cytuno â'r awgrymiadau uchod?

21. A oes unrhyw beth arall y dylem ni ac eraill ei wneud i gefnogi gofalwyr o bob oed mewn addysg a chyflogaeth? A oes gennych enghreifftiau o arfer da?

22. Sut allwn ni roi gwell cymorth i ofalwyr sy'n ei chael hi'n anodd yn ariannol?

²¹ Arolwg Cenedlaethol Cymru (arolwg misol): Gorffennaf 2020

Cwestiynau'r ymgynghoriad

23. Ydych chi'n cytuno ag ychwanegu'r bedwaredd flaenoriaeth genedlaethol i ofalwyr yn seiliedig ar addysg a chyflogaeth?

24. Ydych chi'n credu bod angen diwygio'r rhestr o flaenoriaethau cenedlaethol ar gyfer gofalwyr, a'r bedwaredd flaenoriaeth arfaethedig, ymhellach? Os felly, sut? Disgrifiwch.

5. Siarter i Ofalwyr

80. Bydd llawer o ofalwyr yn cael profiadau cyffredin wrth gefnogi'r unigolyn y maent yn gofalu amdano. Gall y rhain gynnwys:

- Yr angen am ofal seibiant, neu egwyl i wneud pethau er eu budd neu eu diddordeb eu hunain.
- Anawsterau wrth reoli gofynion swydd amser llawn neu ran amser, neu astudio ochr yn ochr â chyfrifoldebau gofalu. Gall diwylliannau gwaith, polisïau ac arferion anhyblyg o fewn y sefydliad sy'n cyflogi'r gofalwr a sefydliadau addysgol waethygu hyn.
- Cefnogi unigolion ag anghenion gofal a chymorth sy'n cael eu derbyn i adrannau brys ysbytai oherwydd salwch sydyn neu ddamweiniau.
- Amrywiadau yn y ffordd y mae pobl yn cael eu rhyddhau o'r ysbyty - gall y broses fod yn dda os yw'r gofalwr yn cymryd rhan mewn sgysiau am drefniadau ar gyfer unrhyw ofal a chymorth y mae angen iddynt fod ar waith, neu gall fod yn brofiad negyddol os nad yw mewnbwn y gofalwr yn cael ei ystyried.

81. Mae gofalwyr a'u cynrychiolwyr wedi lleisio pryderon ynghylch gwahaniaeth sylweddol yn lefelau'r cymorth rhwng gwahanol fyrddau iechyd a chymorth gan awdurdodau lleol i ofalwyr. Mewn ymateb i hyn, rydym yn awyddus i weithio tuag at gyd-ddealltwriaeth o lefel y gwasanaeth y dylai gofalwyr ei ddisgwyl, yn enwedig mewn senarios cyffredin y mae gofalwyr yn dod ar eu traws fel y nodir uchod. Rydym am i'r siarter gofalwyr fod yn adnodd y mae pobl sydd eisiau darparu cymorth i ofalwyr yn troi ato.

82. Bydd y siarter yn ganllaw arfer gorau a bydd yn diffinio'n glir beth yw rolau a chyfrifoldebau Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, byrddau iechyd lleol, sefydliadau'r trydydd sector a gofalwyr.

Cwestiynau'r ymgynghoriad

25. Ydych chi'n cytuno â'n bwriad i ddatblygu a chyhoeddi Siarter i Ofalwyr?

26. A ddylai'r Siarter ddisgrifio disgwyliadau cenedlaethol sefydliadau sy'n cefnogi gofalwyr?

27. Ydych chi'n meddwl y byddai Siarter yn helpu i wella'r gwasanaethau rydych chi'n eu darparu neu'n eu defnyddio?

28. Ydych chi'n cytuno y gallai Siarter helpu i leihau amrywiad daearyddol ymddangosiadol mewn gwasanaethau i ofalwyr?

6. Mesur llwyddiant - data ac ymchwil

Gwerthuso Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant Cymru 2014; prosiect Mesur y Mynydd

83. Bydd datblygu ein cynllun cenedlaethol newydd ar gyfer gofalwyr yn cael ei arwain gyda chyingor a mewnbwn gan Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar Ofalwyr ac aelodau'r grŵp Ymgysylltu, a fydd yn ystyried ystod eang o ffynonellau, gan gynnwys data a thystiolaeth ymchwil.
84. Daeth ein Fframwaith Perfformiad a Gwella newydd ar gyfer awdurdodau lleol i rym, ym mis Ebrill 2020. Fodd bynnag, oherwydd Covid-19, gohiriwyd casgliadau data gofal cymdeithasol i ganiatáu i awdurdodau lleol ailddyrranu adnoddau'n briodol. Treuliwyd amser yn sicrhau ein bod yn derbyn data gofal cymdeithasol perthnasol sy'n gysylltiedig â Covid-19 i ganiatáu inni ddeall y pandemig a sianelu cymorth tuag ato.
85. Mae swyddogion wrthi'n trafod pryd y bydd y gwaith o goladu data gofal cymdeithasol arferol yn aildechrau, ond mae dulliau bellach ar waith i ganiatáu i ddata mwy manwl gael eu casglu gan awdurdodau lleol pan ystyrir bod yr amser yn briodol i wneud hynny. Bydd hyn yn cynnwys data mwy cadarn ar ofalwyr a'r gofal a'r cymorth a gânt.
86. Rydym hefyd yn gweithio gyda'r sector gofal cymdeithasol i ddatblygu strategaeth ar gyfer data gofal cymdeithasol. Bydd hyn yn caniatáu i randdeiliaid a defnyddwyr gofal cymdeithasol gytuno ar weledigaeth gyffredin ar gyfer data gofal cymdeithasol, gan gynnwys sut y gellir ei defnyddio i gefnogi gwasanaethau i sicrhau canlyniadau gwell sy'n cael eu harwain gan dystiolaeth, sy'n atebol ac yn effeithiol. Dechreuodd y gwaith ar gam darganfod y prosiect, ar y cyd â KPMG, yn gynharach eleni, ac mae wedi ailgychwyn yn ddiweddar.
87. Mae'r gwerthusiad o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn parhau. Mae cryn dipyn o waith wedi'i gyflawni hyd yma i asesu sut mae Deddf 2014 wedi cael ei rhoi ar waith ar lefel leol, rhanbarthol a chenedlaethol. Bydd hyn yn cynnwys sut mae egwyddorion "llais a rheolaeth" wedi'u cymhwyso. Roedd adroddiad ar y cam hwn o'r gwerthusiad i fod i gael ei gyhoeddi ym mis Mehefin 2020, ond oherwydd Covid-19, bu'n rhaid gohirio gwaith maes ar gyfer y gwerthusiad a fydd yn achosi oedi gyda'r adroddiad. Erbyn hyn, rhagwelir y byddwn yn adrodd ar y cam hwn ym mis Chwefror 2021.
88. Disgwylir i'r adroddiad interim sy'n asesu effaith Deddf 2014 ar y rhai sy'n cael gofal a chymorth, a gofalwyr sy'n cael cymorth, gael ei gyhoeddi ym mis Hydref 2021, gyda'r adroddiad terfynol yn cael ei gyhoeddi ym mis Hydref 2022. Bydd yn rhoi mewnwelediad i'r modd y mae egwyddorion y Ddeddf fel 'llais a rheolaeth' wedi'u rhoi ar waith a'r effaith y mae Deddf 2014 a'r egwyddorion wedi'i chael ar ofalwyr a llesiant gofalwyr. Defnyddir canfyddiadau'r gwerthusiad i'n cefnogi i ddeall sut y gallwn wella bywydau unigolion, a'u gofalwyr ymhellach.
89. Yn ogystal â'r Fframwaith Perfformiad a Gwella a gwerthuso Deddf 2014, mae'r prosiect "Mesur y Mynydd" a ariennir gan Lywodraeth Cymru wedi'i gynllunio i'n helpu i ddeall profiadau'r rhai sy'n derbyn gofal a chymorth, a gofalwyr, yn well. Cyhoeddwyd yr adroddiad ar gyfer cam cyntaf y gwaith ym mis Mawrth 2019, a nododd ei ganfyddiadau ond hefyd nifer o argymhellion i'w cyflwyno, llawer ohonynt yn ymwneud â sut y gellid gwella'r cymorth i ofalwyr.

90. Fe wnaethom ddarparu ymateb ffurfiol i'r argymhellion hynny ym mis Chwefror 2020²², ac rydym yn gweithio'n galed i sicrhau bod canfyddiadau'r prosiect yn cael eu cydnabod ar draws y sector gofal cymdeithasol, a'u bod yn cael eu hadnabod a'u defnyddio'n ehangach. Mae'r prosiect bellach yn ei ail gam ac yn ceisio deall ymhellach y tueddiadau sy'n dod i'r amlwg o gam un.
91. Bydd y prosiect yn cyflwyno ei adroddiad nesaf ym mis Rhagfyr 2020 a bydd yn rhoi mewnwelediad pellach i brofiadau gofalwyr, a sut y gellir gwella gwasanaethau a chydnabod gofalwyr a'u hanghenion o ran cymorth a chefnogaeth.

Cwestiynau'r ymgynghoriad
29. Sut arall y gallwn ni weithio gyda phartneriaid i fesur llwyddiant y cynllun cenedlaethol ar gyfer gofalwyr?

²² <https://llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-ymateb-ffurfiol-ir-argymhellion-wnaed-gan-y-prosiect-mesur-y-mynydd>